# Am I entitled to Community Care?



Community Care and Health

*This information can be made available in other languages and other formats on request. Please ask.*

# Community Care - Eligibility Criteria

If you make an enquiry about Community Care we will ask for some basic information to find out if we should assess your care needs. If it appears that someone needs Community Care we must offer to assess their care needs.

One outcome of your assessment is finding out whether you are eligible to receive community care services.

*In 2002 the Welsh Assembly Government issued "Creating a Unified and Fair System for Assessing and Managing Care". This includes guidance on "Fair Access to Care Services". The Vale of Glamorgan Council's eligibility criteria, outlined in this leaflet, are based on this guidance.*

# Who is entitled to Community Care Services?

Councils can provide a wide range of social care services such as care in your home, day services and residential care. Demand for services is always heavy and each council has a limited amount of money. We have to make sure that the services that we provide are given to the people with the greatest need. We do this by using eligibility criteria. How we decide is the same for everyone. It is designed to be fair and give everyone equal access to services. We publish the information so that everyone can see and understand how we decide who receives help.

Where it appears to the Local Authority that a person may be in need of community care services, the Local Authority will carry out an assessment of that person's needs for those services.

To be eligible for community care services you must:

- Be an adult and have social care needs arising from physical, sensory, or learning impairments or disabilities, chronic illness, or mental health difficulties. Unpaid carers may also be eligible.

And

- There must be a risk of your losing your independence or a health and safety risk, or a risk to your ability to manage your personal and other daily routines or your involvement in family life and the wider community that could be reduced by your receiving care services.

Guidance issued by the Welsh Assembly requires the Local Authority to use a framework to determine whether or not a person is eligible. In order to be eligible for community care services you must come within one of four bands identified by that framework namely:

Critical
Substantial
Moderate
Low

In determining how the assessed needs are met the Local Authority will consider each persons case individually on its own merits. The Local Authority has to decide how it prioritises its resources and this is a significant factor in determining who gets what. The Local Authority has to strike a balance between responding to very serious needs on the one hand and lower level needs which may get worse if services are not provided on the other hand. Currently the Local Authority provides care services to those whose needs are assessed as critical or substantial.

Generally if a person's needs are assessed to be moderate or low the Local Authority will give advice and information about ways of meeting those needs, which may include the provision of services within the community, either by other Local Authority departments or by independent or voluntary organisations. However for those people whose needs are assessed as moderate or low the Local Authority will consider providing services in exceptional circumstances.

Every year, each council must look at the money it has available and decide what level of risk will make people eligible. So whether you are entitled to services or not may change from time to time. This leaflet was written in December 2005. If this is more than a year old please check to find out if it is still up to date.

If you have been assessed as having needs in the Moderate or Low category, we will give you advice and information about other ways of meeting your needs. This may include services provided in the community either by other Council departments or by independent or voluntary organisations.

We will give you a written response whether you meet the eligibility criteria or not. We will apply the same criteria fairly and even-handedly to all adult service groups including carers.

## What if I am already having community care services and have a new assessment?

If:

- you were already receiving services before these criteria were adopted and
- your risks are assessed to be in the Moderate or Low category, and
- we cannot find suitable alternative ways of meeting your needs,

then you may be eligible for "transitional protection".
If so you would continue to get some community care services until alternatives can be found or your needs change.

## Will I have to pay?

There is no charge for an assessment or for giving you advice and information. You may have to pay towards your social care services depending on how much service you receive and how much money you have. We will need to assess your financial circumstances to find out if you have to pay anything.
If you want to know more about charges, please ask for a leaflet.

# Can I make my own arrangements?

If your assessment shows you are entitled to services then, you may be able to make your own care arrangements and pay your care staff yourself. We would give you money to do this but would oversee the arrangements to make sure the money is being used properly. This is called Direct Payments.
If you are interested, ask if this is possible in your situation.

## What are the differences between Critical, Substantial, Moderate and Low risks?

Below is a fuller explanation of the four bands of eligibility:

**Critical** - when:

- Life is or could be threatened; and/or
- You have major physical or mental health problems, or you are likely to develop such problems; and/or
- You are (or could be) experiencing extensive loss of choice and control over vital aspects of your immediate environment and/or
- You have been or might become abused or neglected (self or other); and/or
- You cannot (or might not be able to) carry out vital personal care, domestic or other routines; and/or
- Vital involvement in work, education or learning is or could be lost; and/or

- Your vital social support systems and relationships will or may be lost; and/or
- You cannot or may not be able to carry out your vital family and social roles and responsibilities.

**Substantial** - when:

- You have significant physical or mental health problems or you are likely to develop such problems; and/or
- You are (or could be) experiencing, significant loss of choice and control over your immediate environment; and/or
- You cannot (or might not be able to) carry out most of your personal care, domestic or other routines; and/or
- Involvement in many aspects of work, education or learning are or may be, lost; and/or
- Most of your social support systems and relationships will or may be lost; and/or
- You cannot or may not be able to carry out some of your family and social roles and responsibilities; and they are significant and important to you and to others.

**Moderate** - when:

- You cannot (or might not be able to) carry out several personal care, domestic or other routines; and/or
- Several aspects of work, education or learning are or could be lost; and/or

- Several of your social support systems and relationships will be or could be lost; and/or
- You cannot or may not be able to carry out several of your family and social roles and responsibilities.

**Low** - when:

- You cannot (or might not be able to) carry out one or two domestic or other routines; and/or
- Involvement in one or two aspects of work, education or learning are or may be lost; and/or
- One or two of your social support systems and relationships will be lost or may be lost; and/or
- You cannot or may not be able to carry out one or two of your family and social roles and responsibilities.

*If you have care needs that are clearly at the same level as these but because of unusual or unique circumstances do not fit this framework, you may still be eligible.*

## More Information

We have a number of other leaflets on assessments, specific community care services, where else you can get help, charging, complaints and other subjects. Please ask your care manager or contact your local centre if you would like more information on any aspect of community care.

# Contact Information

The Contact and Information Centre
PO Box 83, Barry
CF63 8YR
Telephone; 01446 - 731100
Minicom; 01446 - 742245
Text Phone; 07966 - 026541
Fax; 01446 - 721980
E-mail; CIC@valeofglamorgan.gov.uk

We are committed to ensuring that services are accessible to all, regardless of racial and ethnic origin, gender, sexuality, disability, age, language or religious beliefs.

This leaflet is a general guide and is not a full and authoritative statement of the law. We believe that this leaflet is correct at the date published. Changes in the law or Council policy may affect its accuracy. Last printed: December 05

**This information may also be provided, by request, in other languages, in larger print, tape, or in simplified version. Please contact the Policy and Information Team on 01446 704814 to make arrangements.**
**Minicom Number: 01446 742245.**



## Visit us online at...
## www.valeofglamorgan.gov.uk

CS/20/DEC05

# Ydw i'n gymwys i gael Gofal yn y Gymuned?



**Gofal ac Iechyd yn y Gymuned**

*Mae'r ffurflen hon ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill. Dim ond i chi ofyn*

# Gofal yn y Gymuned - Meini Prawf Cymhwyso

Pan fyddwch yn holi am Ofal yn y Gymuned, byddwn yn gofyn i chi roi ychydig o wybodaeth sylfaenol i ni'n gyntaf er mwyn cael gwybod a fo angen asesu eich anghenion gofal ai peidio. Os ymddengys fod angen Gofal ar rywun yn y Gymuned mae'n rhaid i ni gynnig asesu anghenion gofal y person hwnnw.

Cael gwybod a ydych chi'n gymwys i dderbyn gwasanaeth gofal yn y gymuned ai peidio fydd un o ganlyniadau'ch asesiad.

*Yn 2002 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru'r ddogfen "Creu System Unedig a Theg ar gyfer Asesu a Rheoli Gofal". Mae hon yn cynnwys canllawiau ar y ddogfen 'Mynediad Teg at Wasanaethau Gofal. Mae meini prawf cymhwyso Cyngor Bro Morgannwg a restrwyd yn y daflen hon wedi'u seilio ar y canllawiau hyn.*

# Pwy sy'n gymwys i dderbyn Gwasanaethau Gofal yn y Gymuned?

Gall cynghorau ddarparu pob math o wasanaethau gofal cymdeithasol megis gofal yn y cartref, gwasanaethau dydd a gofal preswyl. Mae galw mawr am y gwasanaethau hyn, ond hyn a hyn o arian yn unig sydd gan bob cyngor i'w wario. Mae rhaid i ni felly sicrhau bod ein gwasanaethau'n cyrraedd y bobl fwyaf anghenus a gwnawn hyn drwy ddefnyddio meini prawf cymhwyso. Mae gennym ffordd deg ac effeithiol o ystyried ceisiadau sy'n trin pawb yn union yr un fath. Caiff y manylion eu cyhoeddi wedyn er mwyn i bawb gael gweld a deall sut y byddwn yn penderfynu pwy i'w gynorthwyo.

Os bydd yr Awdurdod Lleol yn teimlo bod angen gofal cymdeithasol ar rywun, bydd yn asesu'r person hwnnw ar gyfer y gwasanaethau sydd ar gael.

Er mwyn bod yn gymwys i gael gwasanaethau gofal yn y gymuned dylech:

- fod yn oedolyn sy'n hawlio gofal cymdeithasol am fod gennych anabledd neu nam corfforol, nam ar y synhwyrau, anabledd dysgu, salwch tymor hir neu anawsterau iechyd meddwl.Gall gofalwyr di-dâl hefyd fod yn gymwys o dan rai amgylchiadau.

Ac

- mae'n rhaid i chi fod mewn perygl o golli'ch annibyniaeth, methu â chadw'n iach a diogel, methu â dilyn arferion personol a chyffredinol bob dydd neu fethu â chymryd rhan ym mywyd y teulu neu'r gymuned ehangach a gallu profi y byddai'r peryglon hyn yn llai petaech yn cael manteisio ar wasanaethau gofal.

Mae canllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cynnwys fframwaith y bydd disgwyl i bob awdurdod lleol ei ddefnyddio wrth benderfynu pwy sy'n gymwys i gael gwasanaethau. Cewch hawlio gwasanaethau cymunedol ar hyn o bryd os bydd eich anghenion wedi'u dosbarthu'n un o bedwar categori'r fframwaith hwnnw sef:

Difrifol
Sylweddol
Cymedrol
Bach

Wrth benderfynu sut i fodloni anghenion, bydd yr Awdurdod Lleol yn barnu pob achos unigol yn ôl ei deilyngdod ei hun. Bydd hefyd yn awyddus i ddefnyddio ei adnoddau er y lles mwyaf, a bydd ei benderfyniadau ynglyn â hynny'n dylanwadu gryn dipyn ar y math o wasanaethau a fydd ar gael a phwy a gaiff fanteisio arnynt. Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol wneud pob ymdrech i ymateb i anghenion difrifol heb esgeuluso anghenion bach a allai waethygu petai cymorth yn cael ei wrthod. Ar hyn o bryd, bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ac arnynt anghenion cymedrol neu fach.

Fel arfer, os bydd asesiad yn dangos bod anghenion cymedrol neu fach ar rywun, bydd yr Awdurdod yn cynnig cyngor a gwybodaeth i'w helpu. Ran fynychaf, bydd yn cyfeirio'r person at wasanaethau yn y gymuned sy'n cael eu darparu un ai gan adran arall yn y cyngor neu sefydliad annibynnol neu wirfoddol. Serch hynny, pan fo'r amgylchiadau'n eithriadol, bydd pobl ac arnynt anghenion cymedrol neu fach hefyd yn cael eu hystyried yn gymwys i gael gwasanaethau'r Awdurdod Lleol.

Bob blwyddyn, bydd yn rhaid i bob cyngor yng Nghymru benderfynu faint o arian sydd ganddo i'w wario a pha lefel o berygl a ddylai gymhwyso pobl ar gyfer derbyn gofal. Felly, bydd eich gallu i hawlio gwasanaethau'n newid o bryd i'w gilydd.Ysgrifennwyd y daflen hon yn Rhagfyr 05. Os yw'n fwy na blwydd oed, dylech holi i weld a fo'n dal yn gyfredol.

Os yw eich asesiad yn dangos bod gennych anghenion Cymedrol Is neu Isel, cewch gyngor a gwybodaeth i'ch helpu i'w bodloni mewn ffyrdd eraill. Gallech fanteisio ar y gwasanaethau y bydd adrannau'r Cyngor neu sefydliadau annibynnol neu wirfoddol yn eu darparu yn y gymuned, er enghraifft.

Cewch wybod drwy lythyr a ydych wedi bodloni'r meini prawf ai peidio. Byddwn yn asesu pob grŵp sy'n gwasanaethu oedolion gan gynnwys gofalwyr, yn ddiduedd yn ôl yr un meini prawf.

## Beth fydd yn digwydd os rwy eisoes yn cael gofal yn y gymuned ac yn cael fy asesu eto?

Os:

- oeddech yn manteisio ar wasanaethau cyn i'r meini prawf hyn gael eu derbyn;
- os nad yw'r asesiad risg yn dangos eich bod mewn gormod o berygl (h.y. perygl bach neu gymedrol), ac
- os nad oes unrhyw ffordd arall o foddhau eich anghenion,

gellwch ofyn am gael eich ystyried ar gyfer cynllun "diogelu dros dro".
O dan y drefn honno, byddwch yn dal i gael rhai gwasanaethau gofal yn y gymuned nes i ni wneud trefniadau newydd ar eich cyfer neu i'ch anghenion newid.

## A fydd yn rhaid i mi dalu?

Ni chodir tâl am asesiad nag am roi cyngor a gwybodaeth i chi.

Efallai y gofynnwn i chi dalu am eich gwasanaethau gofal cymdeithasol a bydd hyn yn dibynnu ar faint o wasanaeth yr ydych yn ei gael a faint o arian sydd gennych.

Os ydych am wybod mwy am y taliadau gofynnwch am daflen wybodaeth.

Bydd yn rhaid i ni asesu eich sefyllfa ariannol er mwyn penderfynu a fo angen i chi dalu ai peidio.

# A gaf i wneud fy nhrefniadau fy hun?

Os dengys eich asesiad eich bod yn gymwys i fanteisio ar wasanaethau, mae'n bosibl y cewch wneud eich trefniadau eich hun a thalu i'ch staff gofal eich hun. Rhoddem arian i chi wneud hynny ond byddai'n rhaid i ni gadw golwg ar y trefniadau er mwyn sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio'n briodol. Gelwir y drefn hon yn drefn Taliadau Uniongyrchol.
Os hoffech weithredu trefn Taliadau Uniongyrchol holwch i weld a fo eich amgylchiadau'n caniatáu hynny.

**Beth yw'r gwahaniaeth rhwng peryglon Difrifol, Sylweddol, Cymedrol ac Isel?**

Dyma esboniad mwy manwl ar y pedair lefel:

**Difrifol** - pan:

- fo eich bywyd o dan fygythiad neu mae perygl o hynny; ac/neu
- mae gennych broblemau corfforol neu broblemau iechyd meddwl mawr, neu mae perygl i broblemau felly ddatblygu; a/neu
- rydych un ai'n colli (neu'n rhagweld y byddwch yn colli)'r gallu i ddewis a rheoli llawer o agweddau hanfodol bwysig ar eich cynefin a/neu
- rydych wedi cael neu mewn perygl o gael eich cam-drin neu'ch esgeuluso (gennych chi'ch hun neu gan rywun arall); a/neu
- rydych eisoes yn methu (neu mewn perygl o fethu) â chadw'ch hun yn lân, gofalu am eich tŷ a dilyn rhai arferion pwysig eraill; a/neu
- rydych eisoes wedi colli (neu mewn perygl o golli)'r gallu hollbwysig i weithio, dysgu a manteisio ar addysg; a/neu;

- byddwch yn colli neu gallech golli cefnogaeth y fframwaith hollbwysig o ffrindiau a pherthnasau sydd yn eich cynnal yn gymdeithasol; a/neu
- rydych yn methu neu mewn perygl o fethu â chyflawni eich dyletswyddau a'ch swyddogaethau teuluol hollbwysig.

**Sylweddol** - pan:

- fo gennych broblemau iechyd corfforol neu feddwl mawr neu mae perygl o hynny; a/neu
- rydych un ai'n colli (neu'n rhagweld y byddwch yn colli)'r gallu i ddewis a rheoli llawer o agweddau hollbwysig ar eich cynefin; a/neu
- rydych eisoes yn methu (neu mewn perygl o fethu) â gwneud y rhan fwyaf o'r hyn sydd ei angen er mwy eich cadw'ch hun yn lân, gofalu am eich tŷ a dilyn rhai arferion pwysig eraill; a/neu
- rydych eisoes wedi colli (neu mewn perygl o golli)'r gallu i weithio, dysgu a manteisio ar addysg i raddau helaeth; a/neu;
- byddwch yn colli neu gallech golli cefnogaeth y rhan fwyaf o'r fframwaith o ffrindiau a pherthnasau sydd yn eich cynnal yn gymdeithasol; a/neu;
- rydych yn methu neu mewn perygl o fethu â chyflawni rhai o'ch dyletswyddau a'ch swyddogaethau teuluol sy'n arwyddocaol ac yn bwysig i chi ac i bobl eraill.

**Cymedrol** - pan:

- fyddwch yn methu (neu mewn perygl o fethu) â gwneud peth o'r hyn sydd ei angen er mwyn eich cadw'ch hun yn lân, gofalu am eich tŷ a dilyn arferion pwysig eraill; a/neu
- mae nifer o agweddau ar waith, addysg neu ddysgu eich bod yn methu â'u dilyn neu'n rhagweld y byddwch yn methu â'u dilyn; a/neu

- byddwch yn colli neu gallech golli cefnogaeth nifer o fframweithiau o ffrindiau a pherthnasau sydd yn eich cynnal yn gymdeithasol; a/neu;
- rydych yn methu neu mae perygl o fethu â chyflawni amryw o'ch dyletswyddau a'ch swyddogaethau teuluol.

**Isel** - pan:

- fyddwch yn methu (neu mewn perygl o fethu) â chyflawni ambell i orchwyl arferol o gwmpas y tŷ neu yn eich bywyd bob dydd; a/neu;
- mae un neu ddwy agwedd ar waith, addysg neu ddysgu eich bod yn methu â'u dilyn neu'n rhagweld y byddwch yn methu â'u dilyn; a/neu
- byddwch yn colli neu gallech golli cefnogaeth ambell i fframwaith o ffrindiau a pherthnasau sydd yn eich cynnal yn gymdeithasol; a/neu
- rydych yn methu neu mewn perygl o fethu â chyflawni ambell i ddyletswydd a swyddogaeth deuluol.

*Os oes gennych anghenion gofal sydd yn amlwg ar yr un lefel â'r rhain ond yn anghyson â'r fframwaith oherwydd eich amgylchiadau anarferol neu unigryw gallech ddal i fod yn gymwys.*

## Mwy o Wybodaeth

Mae gennym nifer o daflenni gwybodaeth eraill sy'n ymdrin ag asesiadau, gwasanaethau gofal penodol yn y gymuned, pobl a sefydliadau y gellwch eu holi am gymorth, taliadau, cwynion a phynciau eraill. Gofynnwch i'ch rheolwr achos neu cysylltwch â'ch canolfan leol os hoffech wybod mwy am unrhyw agwedd ar ofal cymdeithasol.

# Gwybodaeth gysylltu

Canolfan Cysylltu a Holi
Blwch Swyddfa Bost 83,
Y Barri,
CF63 8YR
Ffôn; 01446 - 731100
Minicom; 01446 - 742245
Ffôn testun; 07966 - 026541
Ffacs; 01446 - 721980
E-bost; CIC@valeofglamorgan.gov.uk

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gwasanaethau ar gael i bawb beth bynnag a fo eu hil, eu tras ethnig, eu rhyw, eu rhywioldeb, eu hanabledd, eu hoed, eu hiaith neu'u crefydd. Arweiniad cyffredinol yw'r daflen hon ac nid datganiad llawn ac awdurdodol o ddeddf gwlad. Hyd y gwyddom, roedd yn gywir ar ddyddiad ei chyhoeddi ond gallai hynny newid petai'r gyfraith neu bolisi y Cyngor yn newid. Argraffiad diwethaf: Rhagfyr 05

**Cewch y wybodaeth hon mewn gwahanol ieithoedd a fformatiau eraill (tâp sain er enghraifft) neu mewn fersiwn syml drwy holi. Ffoniwch Dîm Polisi a Gwybodaeth ar 01446 704814 er mwyn gwneud trefniadau.**



## Rydym ar-lein yn...
## www.valeofglamorgan.gov.uk

CS/20/DEC05